
Ysgol
Pen Barras

# Croeso i Flwyddyn 5 a 6!

Braf oedd croesawu’r plant yn ôl i’r ysgol ar ôl gwyliau’r haf a chlywed eu hanesion. Mae pawb wedi ymgartrefu’n dda iawn i drefn Bl 5 a 6. Byddwn yn cynnal sesiwn anwytho/galw mewn yn yr ysgol ar brynhawn dydd Llun, Medi 22ain rhwng 3:30yp a 5yp lle bydd cyfle i chi alw mewn i gyfarfod yr athrawon a holi unrhyw gwestiynau sydd gennych.

**Staff BL5&6**

| **Athrawon** | | | **Cymorthyddion** |
|---|---|---|---|
| Mrs Elen Tudor  | Miss Elin Parry  | Mrs Helen Williams  | Mrs Ffion Jones  |
| Mrs Mared Owen  | Mrs Nia Roberts  | | Mrs Sara Bowen-Rowlands  |

**Ymarfer corff**



Bydd gwersi ymarfer corff yn digwydd bob dydd Mawrth ym Mlwyddyn 5 a 6. Gofynnwn i’r plant ddod i’r ysgol yn gwisgo gwisg ymarfer corff yn barod ar gyfer y sesiwn : crys t gwyn, siwmper neu gardigan ysgol, siorts neu drowsus du, treinyrs.

**Gwaith cartref**

Bydd eich plentyn wedi derbyn llyfr gwaith cartref ac mae’r trefniadau gwaith cartref wedi eu hegluro mewn nodyn yn y llyfrau. Bydd y plant yn dod â’u llyfrau gwaith cartref adref ar ddydd Gwener a gofynnwn i’r plant ddychwelyd eu gwaith cartref erbyn y dydd Mawrth canlynol.

| | |
|---|---|
| **Llyfrau darllen**<br>Mae'r plant yn darllen yn unigol bob dydd yn yr ysgol, ac yn ymarfer gyda'r athrawes mewn sesiynau darllen grŵp. Bydd pob plentyn yn dod adref gyda'u llyfr darllen yn ddyddiol ac mae'n allweddol i'r llyfrau ddod yn ôl i'r ysgol bob dydd. Gofynnwn yn garedig i chi gefnogi eich plentyn i ddarllen bob dydd adref, a sicrhau bod bag darllen gan eich plentyn er mwyn cludo'r llyfrau i'r ysgol ac adref yn effeithiol. | **Seesaw**<br>Cofiwch ymuno â chyfrif See Saw eich plentyn. Bydd cod QR i ymuno â'r cyfrif yn y llyfr gwaith cartref. |
| **Hwb**<br>Cofiwch bod llu o weithgareddau a rhaglenni addysgiadol gwych ar gael i'ch plentyn ddefnyddio adref drwy Hwb. | **TTRockStars**<br>Rydym yn annog pawb i ymarfer eu tablau adref drwy ddefnyddio TTRockStars. |

## <u>Thema - Perthyn</u>




Ein thema'r hanner tymor yma yw Perthyn. 'Rydym yn canolbwyntio ar elfennau lles a llythrennedd drwy'r thema, drwy ddysgu mwy am ein hunain, ein hunaniaeth, a sut 'rydym yn perthyn i'n gilydd a'r byd o'n cwmpas. Byddwn yn edrych ar y meysydd canlynol i fwy o fanylder:

- Pwy sy'n perthyn i mi?
- Beth sy'n perthyn i mi yn yr ardal leol?
- Pwy sydd yn fy nheulu a sut mae teuluoedd gwahanol yn edrych?
- Sut 'rydym yn perthyn i bawb ar draws y byd?
- Dysgu am eiriau newydd a diflanedig sy'n gysylltiedig â'r thema.
- Darllen llyfrau, straeon a barddoniaeth berthnasol.

Byddwn yn edrych ar y syniad o deulu ac ar ein teuluoedd ein hunain. Os oes gennych hanesion difyr neu goeden deulu sy'n addas i rannu, byddwn wrth ein boddau yn eu derbyn. Os gallwch gyfrannu at ein gwaith a'n trafodaethau mewn unrhyw ffordd cysylltwch gyda swyddfa'r ysgol.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod unrhyw beth pellach.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad,
Staff Blwyddyn 5 a 6.

# Croeso i Flwyddyn 5 a 6!

It was nice to welcome the children back to school after the Summer holidays and catch up on their news. Everyone has settled very well into the Year 5 and 6 routine. We will be holding an induction/drop-in session at school on Monday afternoon, September 22nd between 3:30pm and 5pm where you will have the opportunity to drop in to meet the teaching staff and ask any questions you may have.

**Year 5&6 Staff**

**Teachers**
**Staff BL5&6**

**<u>Teachers</u>** **<u>Teaching assistants</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mrs Elen Tudor  | Miss Elin Parry  | Mrs Helen Williams  | Mrs Ffion Jones  |
| Mrs Mared Owen  | Mrs Nia Roberts  | | Mrs Sara Bowen-Rowlands  |

| | |
|---|---|
| **PE lessons**<br>PE lessons will take place every Tuesday in Year 5 and 6. We ask that the children come to school wearing sports clothing ready for the session: white t-shirt, jumper or school cardigan, shorts or black trousers, trainers.  | **Homework**<br>All children will receive a homework book and the homework arrangements are explained in a note in the books. The children will bring their homework books home every Friday and we ask the children to return their homework by the following Tuesday. |

| | |
|---|---|
| **Reading books**<br>The children read individually every day at school, and practise with the teacher in group reading sessions. Each child will come home with their reading book daily and it is vital that the books come back to school every day. We kindly ask you to support your child to read every day at home, and ensure that your child has a reading bag in order to transport the books to school and home effectively. | **Seesaw**<br>Remember to join your child's See Saw account. There will be a QR code to join the account at the back of the homework book soon. |
| **Hwb**<br>Remember that there are lots of great educational activities and programmes available for your child to use at home through Hwb. | **TTRockStars**<br>Please encourage your child to practice their times tables at home using TTRockStars. |

**Topic - Belonging**




Our topic this half term is Belonging. We will focus on the elements of well-being and literacy through the theme, by learning more about ourselves, our identity, and how we relate to each other and the world around us. We will look at the following areas in more detail:

- Who is related to me?
- What do I belong to in the local area?
- Who is in my family and what do different families look like?
- How are we related to everyone across the world?
- Learning about new and disappearing words related to the theme.
- Reading relevant books, stories and poetry.

We will look at the idea of family and at our own families. If you have interesting family histories / stories or a family tree that is suitable to share we would love to receive them. If you can contribute to our work and discussions in any way please contact the school office.

Please feel free to contact us if you have any questions or would like to discuss anything further.

Thank you very much for your cooperation,
Year 5 and 6 staff.